



# Teigrod Teilo

Clwb Peldroed ~ Football Club

CYLCHLYTHYR GAEAF - Ionawr 2008

**Croeso i drydydd rhifyn cylchlythyr y clwb. Gobeithio i chi gael Nadolig gwych a bod yr aelodau ifanc yn edrych ymlaen at chwarae rhagor o bêl-droed.**

**Rydym wedi cyflawni Achrediad Efydd yr FAW. Bellach, mae gennym dîm Dan 12 ac wedi llwyddo i gyrraedd yr Astroturf o'r diwedd. Gobeithiaf eich bod yn cytuno fod hwn yn gyfleuster arbennig a ddylai helpu ein chwaraewyr i ddatblygu ynghynt.**

**Yn y rhifyn hwn byddwn yn rhoi diweddariad ar gynnydd y clwb ac esbonio ein gweledigaeth ar gyfer y clwb.**

## Achrediad Clwb FAW

Mae achrediad yn ofynnol gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru. Rydym wedi cyflawni lefel Efydd o achrediad. Roedd yn ofynnol i ni gael y canlynol (ynghyd â phethau eraill) yn eu lle ar gyfer y clwb:

- **cyfansoddiad**
- **datganiad ar gydraddoldeb**
- **datganiad polisi ar gyfer diogelwch, lles a mwynhad**
- **copi o swyddogaethau'r pwyllgor**
- **rhestr o hyfforddwyr**
- **rhestr o aelodau iau (chwaraewyr)**

Mae'r cyfansoddiad, datganiad ar gydraddoldeb, polisi diogelwch, lles a mwynhad a swyddogaethau'r pwyllgor i'w gweld ar ein gwefan **www.teigrodteilo.org.uk** Gobeithiwn bydd cael y rhain yn eu lle yn help i redeg y clwb yn ddidrafferth.

WINTER NEWSLETTER - January 2008

**Welcome to the third edition of the club newsletter. We hope you had a great Christmas and that the junior members are looking forward to playing some more football.**

**We have achieved our Bronze FAW Accreditation and we now have an under 12 team and we have finally made it to the Astroturf. I hope you agree that it is an excellent facility and should help the players develop more quickly.**

**In this edition we will give an update on how the club is progressing and explain our vision for the club.**

## FAW Club Accreditation

Accreditation is a requirement of the Football Association of Wales. We have achieved the Bronze level of accreditation. This required us to have the following (amongst other things) in place for the club:

- **a constitution**
- **an equality statement**
- **a policy statement for safety, welfare, & enjoyment**
- **a copy of committee roles**
- **a list of coaches**
- **a list of junior members (players)**

The constitution, equality statement, safety welfare & enjoyment policy and committee roles can all be found on our website **www.teigrodteilo.org.uk** We hope that having these things in place will help with the smooth operation of the club.

## Hyfforddi a Gweledigaeth y Clwb

Nawr ein bod ymhell i mewn i'r tymor pêl-droed a bod blwyddyn newydd wedi dechrau mae'n amser priodol i ni asesu ein cynnydd.

Mae'r misoedd diweddar wedi dod a nifer o ddatblygiadau i'n Clwb ifanc. Am y tro cyntaf erioed, mae gan Llandeilo dîm sy'n cystadlu yng Nghynghrair Ieuenctid Sir Gaerfyrddin - cafodd Teigrod Teilo Dan 12 ddechreuad gwych i'r tymor - gan ennill edmygedd am eu doniau chwarae a rhoi Llandeilo ar y map pêl-droed drwy'r sylw yn y wasg leol!  Mae'r her wedi cynyddu ond maent yn parhau i lwyddo.  Ein bwriad o fewn 4 mlynedd yw bod timoedd Teigrod Teilo yn cystadlu Dan 16, 15, 14, 13 a 12 yn ogystal â thimoedd mini-league Dan 11, 9 a Thimoedd Merched Dan 12 ac yn hyn. (Nid yw'r Gynghrair yn caniatáu Timoedd cymysg Dan 12 nac yn hyn). Dyma'n gweledigaeth ar gyfer sefydlu strwythur cynhwysfawr i'r Clwb ar gyfer plant Llandeilo! Ond, mae gyda ni weledigaeth arall ar gyfer y Clwb - un sydd yr un mor bwysig i blant ifanc Llandeilo (oedran Ysgol Gynradd)  - sef darparu profiadau o bêl-droed i blant o bob gallu lle nad oes pwyslais cystadleuol.  Fel Clwb rydym yn cydnabod fod angen trwytho plant gydag agwedd bositif tuag at ffitrwydd a lles, beth bynnag eu gallu ac rydym yn benderfynol o fynd i'r afael â materion fel hyn drwy ddefnyddio pêl-droed.

*Hoffwn egluro fod gweledigaeth y clwb yn cael ei roi ar waith mewn dwy ffordd:*

### 1. Sesiynau hyfforddi nos Lun

Mae'r rhain ar gyfer holl Aelodau Cofrestredig y Clwb.  Mae'r ffi ymaelodi blynyddol yn talu am 29 sesiwn hyfforddiant (Medi '07 - Mai '08) - y mwyafrif ohonynt i'w cynnal ar yr Astroturf newydd yn ysgol Tregib (rhagor o fanylion i ddilyn!).  Mwynhad yw pwyslais y sesiynau yma - gwella sgiliau gyda'r bêl, lefelau ffitrwydd a mwynhau ar y cae pêl-droed!  Mae'r sesiynau hyn ar gyfer pawb o bob gallu.


Picture by Mark Davies

## Coaching & Club Vision

Now that we're well into the football season and just starting a new year it seems an appropriate time to assess our progress.

Recent months have seen many new developments to our young Club. For the first time ever, Llandeilo has a team competing in the Carmarthenshire Junior League – and Teigrod Teilo Under 12's started the season on fire – winning admiration for their style of play and putting Llandeilo on the football-ing map through local press exposure! Things have become more challenging but they are still doing well. Our  4 year goal is to have Teigrod Teilo teams competing at Under 16, 15, 14, 13 and 12's as well as "mini-league" teams at Under 11, 9's and Girls Teams for U12's and above. (The League doesn't allow mixed Teams from U12 and beyond). That's our vision for establishing a comprehensive Club structure for the children of Llandeilo!
But, we do have another Club vision – one that's equally important for the young children of Llandeilo (Primary School ages) – and that is to provide football-ing experiences to children of all abilities where the emphasis is non-competitive. As a Club we recognize the need to instil in young children a positive attitude towards fitness and well-being irrespective of ability and we are determined to address such issues through football.

*We wish to clarify that the Club vision is implemented in 2 ways:*

### 1. Monday night training sessions

These are for all Registered Club Members. The annual membership fee pays for 29 coaching sessions (Sept`07 – May `08) – the majority of which will be at the new Astroturf facility at Tregib school (more details to follow!). The emphasis during these sessions is on enjoyment – on improving ball skills, fitness levels and having fun on a football pitch! These sessions are for every one of all abilities.

Seren Hyfforddi! Mae'r Clwb wedi cyflogi Ian Davies - Hyfforddwr Pêl-droed ifanc a hynod o gymwys - i weithio gyda ni pob nos Lun am y misoedd nesaf. Bydd Ian yn cydlynu'r sesiynau hyfforddi ar nos Lun - mewn ffordd, fe fydd yn hyfforddi'r hyfforddwyr. Rydym yn hyderus y bydd yr holl blant a'r hyfforddwyr yn elwa o arbenigedd Ian o fewn amgylchedd hyfforddi fwy strwythuredig.

## Astroturf

Er ein bod yn credu fod yr Astroturf yn gyfleuster gwych ac o fudd enfawr i'r clwb, mae baich o wariant ychwanegol yn dod gydag ef. Cost llogi'r Astroturf yw £38.10 yr awr. Er mwyn cael lle i'r cyfan o'r 118 o chwaraewyr ifanc rydym wedi rhannu'r sesiwn ar nos Lun yn ddwy ran: 6 - 8yh am bris o £76.20 yr wythnos! Cyfrifwyd tanysgrifiadau aelodaeth i'r clwb a'u cynyddu ar ddechrau'r tymor oherwydd y cynnydd dramatig hwn yn y costau wythnosol!

**Blwyddyn 1, 2, 3 + 4 i hyfforddi rhwng 6 – 7 yh**

**Blwyddyn 5, 6 + 7 i hyfforddi rhwng 7 - 8 yh**

Deallwn na fod rhannu'r sesiwn yn ddwy yn addas i bawb, ac fe ymddiheurwn i unrhyw un sy'n gweld y trefniant yn anghyfleus. Mae'r trefniadau wedi'u gwneud am resymau ymarferol.

Coaching Supremo! The Club has decided to employ Ian Davies – a highly qualified young Football Coach – to work with us every Monday for the next few months. Ian will coordinate the Monday night coaching sessions – in effect, he will coach the coaches. We are confident that all the children and coaches will benefit from Ian's expertise within a more structured coaching environment.



Picture by Mark Davies

## Astroturf

Whilst we believe the Astroturf is an excellent facility and a major benefit for the club it does come with the added burden of greater expenditure. Hire of the Astroturf is £38.10 per hour. To accommodate a maximum of 118 young players we have applied split the Monday night sessions into a 2 hour block on Monday nights : 6 – 8pm at a cost of £76.20 per week! Club Membership subscriptions were calculated and increased at the beginning of the season due to this dramatic increase in weekly costs!

**Years 1, 2, 3 + 4 will train between 6 – 7 pm**

**Years 5, 6 + 7 will train between 7 – 8 pm**

We appreciate that splitting the session into two hours does not suit everyone and we apologise for any who find this arrangement inconvenient. It was done for practical reasons.







## 2. Gemau cystadleuol ar gyfer Timoedd Teigrod Teilo y Clwb a sesiynau hyfforddi fore Sadwrn ar gyfer 'Carfan Ddatblygu'

Mae'r timoedd a'r carfanau yma yn gynyddol cael eu dewis ar deilyngdod a gallu wrth i'r chwaraewyr dyfu'n hyn - Hyfforddwyr y Tîm sy'n gyfrifol am ddewis a gwahodd chwaraewyr. O safbwynt ymarferol rhaid i'r hyfforddwr fod yn ddethol - mae'r sesiynau hyfforddi yn arbenigol a'r gemau yn hynod o gystadleuol. Yn anochel, bydd rhai chwaraewyr yn cael siom. Gwyddwn fod timoedd sy'n atal rhag bod mor gystadleuol â phosib gyda'u gwrthwynebwyr yn arwain at brofiad pêl-droed gwael i'r chwaraewyr. Rydym am osgoi hyn. Mae'n rhaid i ni sicrhau datblygiad carfan o chwaraewyr er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cwrdd â gofynion y gynghrair a thwrnameintiau presennol ac ar gyfer y dyfodol - Dan 12, carfan o 15 ar gyfer gemau 11-bob ochr, Carfan Dan 11 o 18 ar gyfer 2 dîm o 7.

- **Y tymor hwn mae gennym 5 o dimoedd yn cystadlu mewn Cynghreiriau lleol**
- **Mae ein tîm Dan 12 ar hyn o bryd yn bedwerydd yng Nghynghrair Ieuenctid Sir Gaerfyrddin. Hyfforddywr: Mark Swindells, Aled Llyr, Eddie Cowan**
- **Mae gennym 2 dîm Dan 11 yn cystadlu bob yn ail ddydd Sadwrn yn y Mini League yn Nhre Ioan. Hyfforddwyr: Serge Bonandrini ac Adam Hathaway**
- **Mae 2 dîm Dan 9 yn cystadlu mewn Mini League ar yr Astroturf yn Nhre Ioan. Hyfforddwyr: James McAvoy a Tony Gallafant**
- **Mae holl hyfforddwyr ein clwb yn gwneud pob ymdrech ar bob amser i fod mor deg ac sy'n bosibl wrth ddewis timoedd Teigrod Teilo. Gofynnwn yn garedig i chi barchu eu penderfyniadau anodd a chadw at y Côd Ymddygiad sydd gan y Clwb.**
- **Mae trafodaethau cyfeillgar gyda hyfforddwyr yn llaw-er o help ond nid yw ymddygiad bygythiol yn dderbyniol!**
- **Y peth gorau i'ch plentyn pan na gaiff ef/hi ei ddewis yw dyblu'r ymdrech i wella'r sgiliau pêl-droed er mwyn newid meddwl yr hyfforddwr!**
- **Os yw rhiant yn hynod o anfodlon gyda'r Clwb – dylai dynnu'r plentyn allan o'r clwb, ac fe fyddwn yn ad-dalu rhan briodol o'i tanysgrifiad.**

Rydym o hyd yn edrych am hyfforddwyr ychwanegol felly dywedwch wrth aelod o'r pwyllgor neu hyfford-dwyr os oes gennych ddiddordeb. Bydd y clwb yn talu am unrhyw hyfforddiant ac nid oes angen profiad o chwarae pêl-droed ar unrhyw fath o lefel cystadleuol, dim ond brwdfrydedd sydd ei angen.

## 2. Competitive games for the Club's Teigrod Teilo Teams + Saturday morning training sessions for a "Development Squad"

These teams and squads are increasingly selected on merit and on ability as the players grow older – and Team Coaches are responsible for selecting and inviting players. From a practical point of view the coach must be selective – the training sessions are specialised and the games are highly competitive. Unavoidably, some players will be disappointed. We know that fielding teams that are not as competitive with their opponents as is possible leads to a poor football-ing experience for the players. This is something we wish to avoid. We need to ensure the development of a squad of players to ensure we can meet current and future league and tournament requirements – U12s, squad of 15 for 11-aside game, U11s Squad of 18 for 2 teams of 7.

- **This season we have 5 Teams competing in local Leagues**
- **Our Under 12's are currently 4th in the Carmarthenshire Junior League. Coaches: Mark Swindells, Aled Llyr, Eddie Cowan**
- **We Have 2 under 11's teams competing every other Saturday in the Carmarthen Mini League at Johnstown. Coaches: Serge Bonandrini and Adam Hathaway**
- **2 Under 9's teams compete in the Mini League on the Astroturf at Johnstown. Coaches: James McAvoy and Tony Gallafant**
- **All our Club Coaches make every effort at all times to be as fair as possible when selecting Teigrod Teilo Teams. We kindly ask you to respect their difficult decisions and to abide by the Club's Code of Conduct**
- **Friendly discussions with coaches are helpful but any sort of confrontational approach is absolutely out of order!**
- **The best thing to tell your child when not selected is to redouble his/her efforts to improve his/her football so as to change the coach's mind!**
- **If a parent is extremely dissatisfied with the Club – then he/she should withdraw the child and we will refund an appropriate part of their subscriptions.**

We are always looking for extra coaches so please let one of the committee members or coaches know if you are interested. The club will pay for any training and no experience of playing football at any kind of competitive level is required, just enthusiasm.


Picture by Mark Davies


Picture by Mark Davies

## Gwisg Ail Law

Fel rhan o geisio helpu'r amgylchedd, cynhyrchu arian ychwanegol i'r clwb ac arbed costau i rieni rydym yn gofyn am roddion o wisg nad ydych eu hangen bellach sydd o ansawdd digonol. Bydd yn cael ei werthu am bris rhesymol i aelodau'r clwb â'r elw yn mynd yn ôl i'r clwb. Byddwn yn hysbysebu gwerthiant o flaen llaw. Mae gwisg addas yn cynnwys esgidiau pêl-droed, shin pads, cotiau sy'n dal dwr, siorts a chrysau. Rhowch i Helen Scutt neu Colin Henderson os gwelwch yn dda.

## Iechyd, Diogelwch a Lles

Yn olaf, ond efallai bwysicaf, rydym yn parhau i geisio gwella iechyd, diogelwch a lles y plant yn ein sesiynau hyfforddi a'n gemau.

Mae hyfforddwyr wedi dechrau gwisgo bibiau oren er mwyn eu gwneud yn fwy amlwg. Byddwn hefyd yn gwerthfawrogi'n fawr os fyddai rhieni plant ym mlynyddoedd 1 a 2 yn aros yn ystod y sesiwn hyfforddi.

Wrth i'r tywydd droi'n oerach a gwlypach sicrhewch fod eich plentyn wedi gwisgo'n hollol addas i ddelio gyda phob math o dywydd a'i fod yn dod a chôt sy'n dal dyr gydag ef/hi bob tro.

## Second Hand kit

In an attempt to do our bit for the environment, generate some extra funds for the club and keep down costs for parents we are asking for donations of unwanted, decent quality kit. This will then be sold at very reasonable prices to club members and the proceeds ploughed back into the club. We will advertise a sale in advance. Suitable kit includes boots, shin pads, waterproof coats, shorts and shirts. Please give it to Helen Scutt or Colin Henderson

## Health, Safety & Welfare

Finally, but perhaps most importantly, we are continuing to try and improve health, safety and welfare for the children at our coaching sessions and at matches.

Coaches have started wearing orange bibs so that they stand out. We would also greatly prefer it if the parents of year 1 & 2 children stayed during the training session.

As the weather gets colder and wetter, please ensure that your child is fully equipped to deal with all types of weather and always brings a waterproof coat with them.








## And finally………

Wrth i ni dyfu (yn hynod o gyflym!) - er ymdrechion holl Swyddogion a Hyfforddwyr y Clwb - yn anffodus mae rhai problemau wedi dod i'r amlwg yn ystod y misoedd diwethaf. Rydym yn ymddiheuro ac yn cydnabod i ni wneud camgymeriadau, ond gofynnwn i'r holl rieni fod yn amyneddgar a chefnogol â'n holl hyfforddwyr, sy'n rhoi eu hamser o'u gwirfodd er mwyn datblygu sgiliau ein plant.

Ni wnaeth y sefyllfa gyda'r Astroturf helpu ac mae'r angen am Hyfforddwyr newydd i'r Clwb yn bryder parhaol. Oni bai am hyfforddwyr ymroddedig - sy'n gwirfoddoli eu hamser - does dim Clwb Pêl-droed! Parchwch yr hyfforddwyr hynny a'u cynorthwyo mewn unrhyw ffordd posib os gwelwch yn dda. (Os hoffech hyfforddi neu fod gennych sgiliau i helpu mewn ffordd arall - cysylltwch ag un o Swyddogion y Clwb)

Yn araf ac er gwaethaf yr heriau - teimlwn ein bod yn adeiladu gwreiddiau cadarn ar gyfer Clwb Pêl-droed llwyddiannus i blant Llandeilo - Clwb y gall y plant a'r gymuned fod yn falch ohono - ond ni allwn wneud hyn heb eich help chi!!

## And finally………

As we grow (frighteningly fast!) – despite the honest efforts of all Club Officials and Coaches – some problems have unfortunately arisen during the past few months. We are sorry and we acknowledge that we have made some mistakes, but we would ask all parents to be understanding and supportive of all our coaches, who give their time freely to develop the skills of all our children

The Astroturf situation did not help matters and our need for new Club Coaches is an ever-present dilemma. Without committed Coaches – who all give their time voluntarily – there is no Football Club! Please respect those coaches and help them in any way you can. (If you would like to Coach or think you have skills to help in any other way – please contact one of the Club Officials)

Slowly and despite all the challenges - we feel we are putting in place solid foundations for a successful Football Club for the children of Llandeilo – a Club the children and the community can be proud of – but we can't do it without your help!!

**Ymwelwch â'n gwefan**

**www.teigrodteilo.org.uk**

**am wybodaeth ynglyn â hyfforddi, gemau, adroddiadau gemau ac ati, defnyddiwch y linc i'r e-bost er mwyn rhannu gwybodaeth neu roi adborth.**

**Please remember to visit our web-site**

**www.teigrodteilo.org.uk**

**for information on training, games, match reports etc and please use the email link to give any information or feedback.**